Cyfres Llanbedr | Chwefror 1933. | Cyf. 33. Rhif 2.

Profwch bob peth | Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. | Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. | Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

CANMLWYDDIANT REBEL.
Y RHEW.
WRTH Y TÂN.
"JOHN LEWIS, PONTYPRIDD."
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—
Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner at

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,'
LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. CHWEFROR, 1933. CYF. XXXIII. RHIF 2.

Canmlwyddiant Rebel.

Gan y PARCH. D. LLEWELYN JONES, LLANIDLOES.

YMAE'N ddydd prysur yn nhref Caerfyrddin dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Â pawb yn ei dro i Heol y Prior, lle y ceir rhyw ŵr wedi ei ddwyn o'r carchar a'i osod yn y pilwri.

Caiff y dorf hwyl ar ei wawdio. Eto, fe atelir cryn dipyn arni, am fod dwy ferch i'r carcharor yn aros, un o bobtu iddo, yng nghanol yr holl firi a'r sarhâd, er mwyn ei amddiffyn. Dim ond un fenyw benwan sy'n ddigon creulon i daflu ato ŵy clwc.

Pwy oedd y carcharor a phaham y'i cosbwyd ?

"CWRW BACH"

Ar y pumed o Fawrth, 1801, aethai'r Parch. Thomas Evans i "Gwrw Bach" a gynhelid gan weddw dlawd yn ardal Brechfa, er mwyn ei helpu i gael deupen y llinyn ynghyd. Cododd yr hwyl a dechreuodd y cwmni ganu, a chan fod Evans yn gwmniwr difyr ac yn ganwr da, gofynnwyd iddo roddi cân iddynt. Gwnaeth yntau.

Bu rhyw gymydog iddo, oedd hefyd yn ddiacon yn ei gapel, yn ddigon o lechgi i gamliwio pethau, a hysbysu'r awdurdodau ddarfod canu cân fradwrus i'r deyrnas yn y cyfarfod llawen hwnnw.

Dygwyd Evans gerbron y Barnwr Lloyd, ac aed mor bell ag enwi'r gân Saesneg a fu'n achos yr helynt, sef un gan Iolo Morgannwg, sy'n cynnwys y pennill :

And when upon the British shore
The thundering guns of France shall roar,
Vile George shall trembling stand,
Or flee his native land
With terror and appal—
Dance Carmagrol, dance Carmagrol.

Dioddef ar Gam

Tystiai Evans ei hun ar hyd ei oes nad yn Saesneg y canodd ar y pryd. A chan ei fod yn ddyn didwyll, ac y buasai'n beth hynod cael cân Saesneg mewn bro drwyadl Gymraeg, gallwn gredu mai ar gam y'i cyhuddwyd.

Eithr barnwyd ef yn euog, a'i ddedfrydu yn Awst 1801 am ddwy flynedd i garchar Caerfyrddin. Dioddefodd warth y pilwri ddwywaith tra bu yno.

Ofnai'r awdurdodau glywed si am unrhyw fath o ysbryd gwrthryfel. Oni laniasai'r Ffrancod yn Abergwaun yn 1797 ? Ac onid oedd atgof y dychryn yn cyniwair trwy galonnau dynion o hyd, yn enwedig yn y De ?

Undodwyr

Yr oedd i Thomas Evans ei gyfeillion, ac nid anghofiwyd ef yn ei gyni. Dywedir bod gwerth y rhoddion a dderbyniodd yng ngharchar yn £200.

Ganwyd ef mewn lle o'r enw Capel Sant Silin, ym mhlwyf Brechfa, Sir Gaerfyrddin, Mehefin 20, 1764. Yr oedd ei gartref yn ymyl afon Cothi, ac oddi wrth honno y cymerth ei ffugenw, Tomos Glyn Cothi.

Cerddai ddeuddeg milltir gyda'i dad i addoli yn Alltyplaca. Ond tua 1786 fe drwyddedodd ei dad ran o'r cartref er mwyn i'r mab gynnal gwasanaeth crefyddol yno.

Tua 1794, trwy gymorth Cymdeithas Llundain, codwyd Tŷ Cwrdd Cwm Cothi ar ei gyfer—y capel Undodaidd cyntaf yng Nghymru.

Oes o Newid

Bu'r ddeunawfed ganrif yn oes o newid ar y ffydd yn Ewrob. Dylanwadodd cyffro'r Chwyldro yn Ffrainc ar lawer. Ac ni bu Tomos Glyn Cothi heb ei gyffwrdd. Daeth yntau i fod yn "rhydd" ei syniadau am grefydd ac am "freiniau dyn," a chondemniai'n frwd bob credo a gyfrifai'n gam a phob trais ar hawliau dyn.

Yr oedd Theophilus Lindsey wedi gwrthod cyfle i fod yn esgob yn Iwerddon, yn hytrach na chaethiwo ar ei ryddid meddwl. Crefydd, yn fwy na gwleidyddiaeth, oedd ei faes arbennig, a chyfieithodd Evans un o'i lyfrau i'r Gymraeg, fel y cyfieithodd hefyd weithiau gan Priestley.

O Blaid y Chwyldro

Y mae'n bwysig cofio'r dylanwadau o Gymru a fu arno hefyd.

Yr oedd Dafydd Lloyd, Brynllefrith, yn anweswr cynnar ar egwyddorion y chwyldro. Bu ef yn cyd-weinidogaethu â David Davis, Castell Hywel, ac fe glywodd Evans, Davis yn pregethu yn Alltyplaca lawer tro, yn ddiau.

Yr oedd anfodlonrwydd ar gyflwr y tlodion eisoes i'w glywed mewn ambell gân gan brydyddion y cyfnod. Canodd Evan Tomos Rhys, Llanarth, Ceredigion, am dlodi'r "labrer" cyffredin. Condemniodd Hugh Jones, Maesglasau, yntau, drais ac anghyfiawnder y tirfeddianwyr a sôn am "ryddid" y werin. Ac yr oedd eraill mwy enwog yn canu'n gyffelyb.

Aethai y pethau y canent amdanynt "i waed" dynion.

Ugain o Lyfrau

Yn ei dro, gwrthryfelodd Thomas Evans, yntau, yn erbyn hen hualau mewn crefydd a gwleidyddiaeth. Mynnai ryddid personol i draethu ei farn ar lafar ac mewn llyfr. Ysgrifennodd tuag ugain o lyfrau i gyd. A hyd yn oed yn y carchar fe gasglai ddefnyddiau at Eiriadur a gyhoeddwyd yn 1809.

Yr oedd yn gefnogwr pybyr i'r eisteddfodau a fu ym Merthyr ddechrau'r ganrif o'r blaen, a cheir amryw o'i weithiau prydyddol ef ei hun yn "Awenyddion Morgannwg" (1826).

Dichon mai ei brif waith llenyddol oedd y cylchgrawn chwarterol a gychwynodd yn 1795, "The Miscellaneous Repository, neu y Drysorfa Gymysgedig," na ddaeth ond tri rhifyn ohono allan, am fod y Llywodraeth wedi gwneud deddfau i rwystro'r diwygwyr cymdeithasol.

Patrwm Ffrainc

Yn y cylchgrawn fe bleidir diwygio llywodraeth y wlad hon wrth ddelfrydau Chwyldro Ffrainc. Ceir hefyd emynau a gweddiau ar gyfer yr amser, yn dysgu'r un egwyddorion, ac yn dangos cyni'r werin, oherwydd rhyfel a thrais y llysoedd barn. Wele frawddeg neu ddwy:

> "Treiswyr sydd yn sychedu am waed, yn anrheithio y byd, ac yn gwasgaru anghyfanedd-dra dros y gwledydd. . . . Cynddaredd uffern sydd ar led yn y byd; gwallgof-cythreuliaid sydd yn aflonyddu ein llysoedd: y tlawd sydd yn llefain yn ein heolydd am fara"

Wele eto bennill o'r "hymnau i'w canu ar ddydd ympryd":

Yn bendramwnwgl bŵr i lawr,
Holl dreiswyr byd mewn munud awr,
O gwasgar, Hollalluog Dad,
Y rhai sy'n pesgi ar ddynol wa'd.

Er atal y cylchgrawn, daliodd i ganu amryw ganeuon rhyddid hyd 1800. Tybir mai ef yw awdur y cyfieithiad o'r "Marseillaise" a gyhoeddwyd yng "Ngeirgrawn Treffynnon" yn 1796, Tua'r adeg hynny y dechreuodd gyfeillachu â Iolo Morgannwg.

Ei Emynau

Cyhoeddodd gyfrol yn cynnwys cant o'i emynau yn 1811. Ceir llawer o'r emynau yn Fawl a Gweddi, a chynhwysant hyfforddiant moesol cymwys, a deuddeg ar hugain o benillion "Addysg Ieuenctyd."

Deil hefyd i sôn am freiniau dyn ac am anghyfiawnder pob trais, a phleidia ryddid i'r caethion a heddwch cyffredinol:

Darostwng Arglwydd uchel gais
A balchder ffrom holl feibion trais,
Yn lle gorthrymder, dicter dwys,
Teyrnased glân gyfiawnder glwys.

Trwy wir adnabod breiniau dyn,
Diffodded gwŷn creulonder;
Ar heddwch rhodded pawb ei fryd,
Er dwyn i'r byd esmwythter.

Dywedir mai Tomos Glyn Cothi oedd y cyntaf i bregethu Undodiaeth, a'r cyntaf i sefydlu capel Undodaidd yng Nghymru. Ef oedd y cyntaf hefyd i ddwyn yr enw Undodiaeth i lenyddiaeth Gymraeg.

O haf 1811 hyd ei farw, bu'n weinidog yn Aberdâr. Cefnodd llawer ar yr eglwys oblegid yr athrawiaeth a bregethai, ond glynu wrtho a wnaeth y mwyafrif, gan ei barchu hyd y diwedd. Bu farw ar Ionawr 29, 1833, yn 69 oed.

Ceir yn Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr faen coffa o farmor gwyn iddo, ac y mae ar garreg ei fedd yn y fynwent bennill o un o'i emynau ei hun:

Er mynd mewn braw, ar fyr o bryd,
I gaerau'r bedd o gyrrau'r byd,
Daw dydd i bawb gyfodi a byw
Drwy ewyllys da a gallu Duw.

(O'r *Cymro*).

Y Rhew.

Tro draw, dyro law, daear lâs a guddiwyd,
Duw, gwyddom fyd atgas ;
Tro'r ia a'r eira oerias
O Dduw, i'r glyn yn ddwr glas.

DYNA ddymuniad rhyw hen fardd dienw fel y'i croniclir yn Llawysgrif Mostyn, a dywed llawer, "Amen," y dyddiau hyn mewn llawer man. Dyna fy nymuniad innau'r bore hwn hyd nes imi glywed dip-dip y dŵr a gwybod bod y pibau dŵr wedi byrsto. Y mae'n anodd deall llawer peth. Y mae ffyrdd Duw yn natur yn rhyfedd iawn a chofiaf glywed awgrym fod dŵr wrth rewi yn chwyddo. Nid oedd y wybodaeth o un diddordeb i mi yn y wlad, lle cai y pistyll a'r nant ddigon o *elbow room* i chwyddo faint a fynnent. Daeth y peth adref gyda grym y bore yma o weld y dŵr yn pistyllo a minnau'n gwybod bod *byrst* yn y pibau.

Medrir mewn tref ddwyn dŵr i'r tŷ a pheri i natur ufuddhau inni ond ni fedrir caethiwo deddfau Natur fel y gwn i er fy ngholled. Medraf i beri i'r dŵr mewn piben blwm fynd o rŵm i rŵm ond myn y dŵr yn ei dro *elbow room* yn y biben blwm fel yn y pistyll a'r nant. Nid oes dderbyn-wyneb gan ddeddfau Duw.

Rhyw feddyliau crwydr felly oedd yn gwau trwof a minnau'n eistedd wrth y tân a thybio bod llawer ffynhonnell heblaw'r dŵr wedi rhewi ers tro. Agorodd rhywun y drws a theimlais bod yr awel oer wrth fy nhrywanu hyd y mêr yn awgrymu testun i mi, a thestun oer a miniog.

Neithiwr ar fy ffenestr y bu rhywun wrthi'n brysur, brysur oherwydd medrwn wneud fy llŵ nad yr un ffenestr oedd yno a chynt. Wrth fynd i'r gwely yr oedd y gwydr yn blaen ond erbyn y bore yr oedd yma *frosted glass* mewn gwirionedd. Ni welais i ddarluniau hafal i'r darluniau o ddail a rhedyn ar y ffenestr. Pwy law sydd a medr yr arlunydd hwn ? Sonir am ambell ddarlun mewn du a gwyn neu yn hytrach *etching*. Dyma ffenestr ag Etcher tragwyddol wedi bod wrth ei waith. Ni wn i am ddim prydferthach na ffenestr wedi noson rewllyd, ond ni fedr yr un dewin esbonio y ffurfiau rhyfedd prydferth y sydd wedi'u *hetcho* ar y gwydr. Hir yr arosaf gan geisio dilyn *sprays* y llaw anweledig.

Gyda llaw caraf droi dail llyfr darluniau, neu sylwi ar gopiau o ddarluniau neu Etchings.

Gwn am ddarlun y sy'n dwyn naws y gaeaf i hirddydd haf. Y mae llinell neu ddwy'n peri imi gau 'nghot. Y mae darlun Gunning King, " Y Dyn a'r Rhaca Baw ", wedi dwyn ar gof i mi

y medr arlunydd bregethu yn hyotlach na phregethwr ei hun. Dyna wna King. Nid oes nemor ddim yn y darlun. Dim ond dyn a chlobyn o drwyn fel persyn aeddfed, a chystal cest ganddo ag a welsoch erioed. Cydia yn ei raca yn lletchwith ddigon fel pe buasai ei ofn arno, gan grafu'r baw. Y mae llawer o ddynion yn mynd drwy fywyd dan "grafu baw".

Wrth ochr y dyn yn y darlun y saif angel megis yn y nudd a choron aur yn ei law. Cynnig hi i'r dyn ond ni wel mohoni am fod ei lygaid ar y baw. Collwn ninnau goron cysur ac hapusrwydd oherwydd ein bod yn prysur "grafu baw".

Darlun bach arall a garaf i yw darlun George Mason "Y Ffforddolion". Nid yw ddim ond llwybr a dau yn cerdded ar hyd-ddo. Cerdd yr ifanc yn sicr ei droed a'r wawr yn ei lygad ond nid felly'r henafgwr. Y mae'i law ar ysgwydd yr ifanc a cherdd a chamre petrus. Y mae pob ystum o'i eiddo, hyd yn oed y ffordd y gafael yn ei ffon yn awgrymu ei fod yn ddall.

Nid yw hynyna ond gyda llaw er dangos y medr darlun awgrymu gwers. Felly darluniau'r rhew ar y ffenestr. Y maent fel y grisial ond y mae oerni'r hin i'w deimlo hyd yn oed yn nail a rhedyn y ffenestr.

Y mae gennyf lili'n tyfu yn y tŷ. Troes at y ffenestr er ceisio cusan yr haul ond aeth yn rhy agos i'r gwydr ar noson rewllyd a thalodd y pris. Deifiodd y rhew y blagur ifanc, a chrin yw. Y mae rhywbeth yn bur yn yr ia ond y mae'n oer.

Nid wyf yn siwr na cheir ambell gymeriad fel y rhew yn deifio ffordd y cerddo.

Y mae yna hen gred neu gred newydd fod dyn wedi bod ar y ddaear yma cyn y tro hwn. Ni wnaf ond croniclo'r gred heb geisio'i phrofi na'i hamau. Y mae'n gred ddiogel iawn am y medraf ar ei phwys ddarlunio dyn yn oes y Rhew pan fum yma ryw dro o'r blaen.

Mynych, mynych y teimlaf ger y tân awel oer yn chwythu heibio. Nid oes gornel gynnes yn y tai newyddion yma fel yn yr hen fythynnod tŷ gwellt a'ch cefn ar y mur neu'r palis o dan yr hen simnai lwfer. Y mae'n dod yn syth fel saeth o fwa atoch ac yn trywanu hyd y mêr. Y mae'i hanadl oer yn deifio popeth ac y mae angau yn ei thrywaniad. Cwymp yr hen a'r ifanc a'r canol oed. Rhy'r meddyg enw newydd spon ar glefyd ond cystal cyfaddef mai'r awel oer sydd wedi brathu'n greulon o galed. Cofiaf ddarllain hanes taith Captain Scott i Begwn y De a gwn y difrod a wnaeth y rhew a'r awel oer.

Y drwg amdani, nid dim ond yn natur y ceir y rhew a'r awel rewllyd. Ar bwys y gred fy mod wedi bod yma o'r blaen, gallaf ddywedyd i mi yr adeg honno adnabod "pobl y rhew".

Bu yma gyfnod yn hanes y byd a elwir yn gyfnod y rhew. Ffosils o'r cyfnod hwnnw yw llawer un, wedi dod i lawr gyda

threigl yr oesoedd. Mewn gwirionedd talpiau o rew ydynt. Y maent wedi rhewi gyda chreaduriaid esgyrnog oes y rhew a chymer genedlaethau cyn eu dadlaith. *Icebergs* ydynt wedi dod gyda'r llanw i hinsawdd gynhesach eglwys Dduw, a theimlwch fod yr awel a chwyth drostynt a min arni. Nid yn unig y mae'n oer ond y mae'n digroeni.

Lawer tro gartref slawer dydd gwrandawwn su'r *nant* a minnau ar ei *gwar*, ond ar fore rhewllyd collwn ei chanig bêr. Yr oedd y rhew wedi'i thagu. Y mae felly mewn bywyd. Fe geir cynllun mewn byd ac eglwys. Fe deimlir awel y gwanwyn yn dihuno calon, gan beri i fywyd newydd lifo drwy'r hen rigolau. A yn ei flaen dan ganu hyd nes y daw i gyffyrddiad a'r *icebergs* yma, ac fe'i rhewir fel y gornant fach. Rhaid aros wedyn hyd gyfnod y dadlaith oni cheir *byrst* fel yn ein tŷ ni.

Ar dalarau Ionor a Chwefror fe welir ambell flodyn cynnar yn mynnu gwenu arnom, ond daw awel lem a rhew fel arf yn ei llaw heibio ac nid yw mwy. Y mae felly mewn cymdeithas. Y mae yna flodyn bach yn tyfu ar dalarau bywyd. Ceir gwên garedig a gair o groeso ; ceir dymuniad da ac ymdrech i fod yn weithgar a defnyddiol. Teimlwn berarogl y blodau hyn fel prydferthwch a pherarogl blagur cynnar ond gwga'r *icebergs*. Chwyth awel y gogledd heibio, ac fe ddeifir y blagur ieuanc a chynnar, a chlywir yr *icebergs* yn holi pan ddaw'r blodau ar eu gwaethaf yn hwyr paham fod y gwanwyn mor ddiweddar.

Y mae'n od bod *icebergs* mewn cymdeithas ac Eglwys Dduw o bobman. Dylasem fod yno fel yng ngwlad yr haf—awel feiriol yn chwythu, heulwen yn tywynnu a chalon pobun yn garedig a siriol. Y mae gennyf dŷ a elwir *greenhouse*. Ynddo yr heuir hadau'n gynnar oherwydd na eilw gwynt y rhew yno. Ymlaen yn y gwanwyn fe'u trawsblennir i'r ardd. Ond nid oes neb mor ffôl a chau'r drws a rhoi *iceberg* ynddo.

Dyna yw Eglwys Dduw—greenhouse lle yr heuir hadau gwên garedig, calon gynnes, amcan da, gweithred ddefnyddiol, cymwynas frawdol ac ymdrech ddiflin. Fe ddylasem eu gweld yma yn egino a blaguro cyn eu trawsblannu i feysydd byd, ond y drwg amdani cyn gynted ag y dengys deilen fach ei phen chwyth awel oer o'r *icebergs* drosti, ac nid yw mwy, ac ofer cwyno nas gwelir ar feysydd byd.

Hyd y gwelaf nid oes dim amdani ond *byrst*. Y mae calon eglwys Dduw wedi rhewi. Y mae gormod o *icebergs* ynddi, a goreu po gyntaf i haul yr Efengyl a heulwen cariad ddadlaith y galon rew sydd yn yr *icebergs* hyd yn oed os ceir *byrst*. Gwn bod difrod wedi *byrst* mewn piben blwm, a gwn y bydd difrod wedi *byrst* pan orfodir i *iceberg* ddadlaith ond *heulwen* sydd i fod yn Eglwys Dduw, ac nid awel rew o galon *iceberg*.

"Tro'r ia a'r eira oerias
O Dduw, i'r glyn yn ddŵr glas." N. a N.

Wrth y Tân.

AR ôl imi orffen fy mhryd bwyd heno, ymwelodd gŵr ieuanc â mi. Mab ydyw Alun i Dafydd Jones, Hafod y Wenallt, amaethwr cefnog ac un o gyfeillion cynnar fy mywyd.

Nytha'r Hafod mewn ceunant clyd yn gartref yr un hiliogaeth am oesau lu. Y gwir yw ni chodai cenhedlaeth yno nemor uwch sawdl y llall. Araf y manteisient ar welliannau prin eu cyfnod. Bodlonent gysgu mewn encilion yn hytrach na cherdded i gyfeiriad toriad dydd a swynion y bannau pell.

Gwaith y cyndadau fu plannu caer o goed preiffion am yr amaethdy, a'u dymuniad hwy oedd aros yn y cylch cyfrin. Lliw cysgodion y dail fu hefyd ar ysbryd y teulu. Cafodd pelydrau datblygiad a diwylliant eu pylu gan niwl ceidwadaeth frwd. Cyfyng yw eu llwybrau rhwng ei changau hi.

Digyfnewid oedd gwedd yr holl gymydogaeth. Felly hefyd fywyd yr ardalwyr. Deuai tymhorau a'u cyfnewidiadau, ond debyced oedd dull un genhedlaeth i arall. Rhoddai'r bryniau ddelw'r digyfnewid yn drwm ar arferion y plant. Aros yn eu hymyl i wrando ar undonedd y distawrwydd yw eu pleser pennaf. Nid oes newid ar gyfrinach y mud. Yr un yw o hyd,—er treigliad buan amser a'i ddatguddiad annelwig. Byw yng nghyfaredd yr hen, heb awyddu am y newydd a gais dychymyg a brwdfrydedd y bobl heinif hyn.

Tyfodd Dafydd Jones, Hafod y Wenallt yn eithriad amlwg i fwyafrif y trigolion. Bu'n etifedd yr Awen yn ôl "braint a defawd." Os ysgafn fu ei logell, eto o ddarfelydd y bardd yr oedd yn gyfoethog. Meddai ar lygad i weled Anian yn ei phrydferthwch a'i cheinder. Ym myd ei drafferthion medrodd gloi cynghanedd mewn englyn a gwisgo dychymyg mewn telyneg dlos.

Prif bleser teulu'r tyddyn ar y nosau meithion, yng ngolau'r gannwyll frwyn oedd chwalu chwedlau Cymru Fu.

Rhuai'r gwynt dros gopaon y mynyddoedd tra'r eisteddai'r teulu'n hapus yng nghysgod y simdde fawr, ger y tân o fawn. Byddai Beti'r wraig wrthi'n brysur gyda'i hosan neu'n nyddu gwlan defaid y llethrau. Gorchwyl y morynion oedd gwneud canhwyllau brwyn. Byddai'r gweision mewn cystadleuaeth am lwy bren neu letwad, neu raffo wynwyn. Darllenai yntau, Dafydd Jones, geinwaith y beirdd, neu chwedlau'r Mabinogion. Brithid y trefniadau hyn gan ambell stori am gannwyll gorff neu doili.

Dyn llygatgraff oedd, a'i olygon yn gwledda ar arwyddion yr amseroedd. Cerddai ymysg y rheng flaenaf o werinwyr tawel a ymbalfalai allan o gaddug y cysgodion. Safai yn blentyn yr ail-

enedigaeth i fywyd newydd a llawnach. Er hynny, ni chafodd ei gyfle ar gyfrif tylodi amgylchiadau a cheidwadaeth ei rieni.

Yn ei oes bu bri ar addysg. Ysgogwyd sylw at lenyddiaeth. Cerddodd y wlad, a fu am gymaint amser yn nharth y nos i gyfeiriad y wawr danbaid. Er hynny, arhosodd yr hen ysbryd i gyniwair drwy gilfachau'r mynyddoedd a thros ddyffrynnoedd y wlad.

Yn wyneb yr anfanteision a dderbyniodd Dafydd Jones, penderfynodd, o byddai gan Alun ei fab dueddiadau at addysg yr aberthid popeth er ei fwyn.

Nid cynt y cafodd y mab ei draed ar lawr yr ysgol feunyddiol yn Rhyd y Ceirw nag y dringodd o ris i ris. Cyflymodd drwy'r ysgol Sir yn Llan Gregyn gan ennill ei ffordd, gydag ysgoloriaeth bwysig i Brifysgol Cymru.

Erbyn hyn y mae ar fin gorffen ei yrfa ddisglair ynghanol argoelion gwych am y dyfodol.

Ar ôl inni draethu ein barn ar lawer pwnc pwysig deuwyd o'r diwedd i faes toreithiog.

" Beth yw eich barn," ebr ef " ar ddyfodol yr Iaith Gymraeg ? " Mewn canlyniad estynnais innau fy syniadau yn bwyllog, heb ruthro i ormodiaith. Wrth wrando ar fy ngeiriau gwelwn bod balchter yng nghalon Alun, a thân yn ei lygaid Pan gafodd ef ei gyfle i draethu ei feddwl, llefarodd ag angerdd o blaid argymellion y Pwyllgor a benodwyd gan Lywydd y Bwrdd Addysg Berwai ei waed ieuanc mewn condemniad o'r brad a fu yn ddiweddar mewn cylchoedd yng Nghymru. Gloywodd ei lygaid wrth syllu i frwydrau y dyfodol o blaid adfer Cymraeg yn iaith calon a gwefus y genedl.

Dirwynodd yr oriau i ben yn hapus wrth wrando ar egni yr ieuengwr hwn yn dihuno. Adroddodd ei ddelfrydau, tynnodd ei gynlluniau, a llon oeddwn innau o'u canfod yn tyfu dan ei driniaeth. Anturiai hwn ar drothwy ei fywyd i wasanaethu'r genedl a'i ddoniau prydferth. Mynnai ei harddu hi dan belydrau llachar Gwirionedd a Gwybodaeth. Hawddamor iti, wyliedydd effro !

" Onid yw breuddwyd a hewyd dy henwlad
Fyth yn ddigwmwl yng nglesni dy lygad
A'i hawliau yn fflam ar dy fin ? "

" Mae ysgol a choleg y ffordd y tramwyi,
A gwawrddydd yn ôl dy droed,
A chenedl ffyddlon i'w henaid yn codi
Ac annibyniaeth yn ei gwythienni
I gyffwrdd ei santaidd oed."

J.S.R.

Cipdrem ar Hanes y Faenor.

CYN gollwng o fy mhin o'm llaw fe oddefir i mi efallai i draethu'm llên ychydig ymhellach ar hanes boreuol a therfysglyd St. Gwynor, ein heglwys henaf. Am reswm na fedraf mo'i egluro canolfan diddordeb pob plwy ag iddo orffennol niwlog a phell ydyw'r Llan, ac nid ydyw ein plwy ni yn eithriad i'r cyfryw.

Adeiladwyd Sant Gwynor yn 874. Myn rhai haneswyr idd[1] gael ei chodi ganrif a hanner yn gynt ond y farn gyffredin yw nad oes sail i'r gosodiad. O dderi tewfrig a dyfasai ar draws y cwm yr adeiladwyd yr eglwys gyntefig. Bu teulu'r ffydd yn ei mynychu am dros bedair canrif ond yn 1291 gwelwyd ei llosgi yn goelcerth fawr. Mewn byr eiriau dyma stori ei dinystr.

Safai yr eglwys heb fod nepell oddiwrth y Daf Fechan a'r afon dryloew hon, yr adeg honno, fel ag yn ein dyddiau ni, oedd y ffin rhwng siroedd Brycheiniog a Morgannwg. Teyrnasid dros Frycheiniog gan wr cymharol ieuanc o'r enw Humphrey De Bohun, a thros Forgannwg gan gefnder iddo, sef Gilbert De Clare, Iarll Gloster. Bryd hynny, megis ag y mae heddiw creigiog a digynyrch oedd tiriogaeth yr Iarll yng nghymdogaeth y Faenor, a chafodd De Clare o'r herwydd, gryn anhawster i fwydo ei lu. Ond o edrych i gyfeiriad rhanbarth ei gefnder gwelai feysydd eang yn tonni gan lafur, ac ychen tewion yn pori hyd lannau Tâf. Parodd yr olygfa i De Clare droi yn lleidr. Droion dan gysgod duwch y nos gwelwyd ei luoedd yn ddistaw groesi'r afon i diroedd yd-euraidd y Faenor i ladrata, a phan ddychwelasant crymai eu hysgwyddau dan bwys yr yspail. Yn erbyn yr anfadwaith hwn penderfynodd De Bohun wrthsefyll yn gadarn. Apeliodd at Edward I. am ymwared ond ar waethaf dedfryd bendant y Brenin parhau i yspeilio a wnaeth De Clare. Daeth yr argyfwng ar ddydd Gwyl Domos, 1291, a'r wawr eto heb dorri, ymguddiodd y Brycheinwyr yn yr eglwys ac yn y beudai cyfagos. Toc, clywid cyffro yn y coedwigoedd o gwmpas ac,

> " Ehagr Furdudd dan nudd nos
> Welwyd yma wyl Domos."

Distawyd murmuron mwyn y Dâf gan gwynfannu dolefus y clwyfedig.

"Law-law y ddau lu ymladdent" ac yn ffyrnigrwydd ei gwg llosgodd y gelyn yr eglwys i'w seiliau. Yn nhymestl eu tymer gwaeddodd y Brycheinwyr am felltith y nef,

"Allor ulw, llaw ryw elyn,
Dial Iôr am Faenor fyn.

A "dial" a ddaeth, oblegid,

"Ban wŷr Bohun a orfu,
Gwaed fel môr dros Faenor fu."

Wedi ymgyrch a barodd drwy gydol y dydd ciliodd De Clare yn lladradaidd i'w gastell yn ôl. Weddill ei oes ni welodd, medd hanes, ond gofid ac helbul. Bu farw cyn hir yn ddyn ieuanc yng Nghastell Mynwy.

Trannoeth y frwydr, yn unol ag arferion militaraidd yr oes, crynhowyd y meirw yn dwmpath enfawr ac fe welir y twmpath hwnnw ar Gae'r Burdudd (The Field of Carnage) hyd y dydd hwn. Yn ddiamau dyma "land mark" mwyaf diddorol y plwy. Cwsg "Ban wyr Brycheiniog" ar un o'u llecynnau prydferthaf, a mwyach

"Yr ych a bawr uwch eu bedd."

Yn ebrwydd wedi dinystr yr hen eglwys adeiladwyd un arall yn ei lle. Yr oedd hyn yn 1295 a chodwyd hi, y tro hwn, o gerrig. Y mae bellach yn adfeilion a'r tŵr yn unig sydd yn aros. Cynhaliwyd gwasanaethau ynddi yn ddi-dor hyd 1867. Rai blynyddoedd cyn hyn yr oedd wedi malurio'n enbyd, ac ar waethaf y perigl i'r to syrthio, cymaint oedd cariad y plwyfolion ati, yn anghyddffurfwyr yn ogystal ag eglwyswyr, fel y defnyddiwyd hi fel lle o addoliad droion hyd yn oed wedi codi yr eglwys brydferth bresennol. Ac yn y cyswllt hwn diddorol ydyw sylwi mai Mr. Christmas Evans, un o Undodiaid mwyaf adnabyddus y cylch, ac un o noddwyr mwyaf haelionus yr Hên Dŷ Cwrdd ar Gefn Coed a briodwyd ynddi ddiwethaf.

"Câs gŵr na charo'r wlad a'i macco." Eithr ni fedrwn garu ein gwlad heb yn gyntaf garu'r plwy lle'n ganwyd. Pe bai a fynno yr ysgrifennu presennol a ffurfio cyfundrefn addysg ein hysgolion dyddiol rhoddai ei fryd yn gyntaf ar adrodd i'r plentyn stori ei blwy, a chwedyn stori ei sir, ac yna stori ei wlad, a maes o law stori gwledydd a chyfandir a chyfandiroedd. Dyna ei unig esgus dros roi ar dudalennau yr YMOFYNNYDD gipdrem brysiog a bratiog ar hanes y Faenor.

Cefn Coed Cymer. MAB Y MYNYDD.

"*John Lewis, Pontypridd.*"

JOHN Lewis wedi mynd! Mae eglwys fechan Pontypridd wedi colli un o'i sylfaenwyr mwyaf blaenllaw ym marw John Lewis, Tophill, Pontypridd. Yn aml ni welwn werth ambell un nes ei golli ond cydnabyddem werth Mr. Lewis yn ei fyw ac ymddiriedem ynddo. Yr oedd llwyddiant yr achos Undodaidd yn agos at ei galon ac nid arbedai draul na thrafferth Cofiaf yn dda pan ddeuthum i Bontypridd o Dowlais yn y flwyddyn 1889, yr own yn aelod yn Nowlais a'r Parch W. J. Davies yn weinidog yno, credwn nad oedd Undodwr ym Mhontypridd. Bum yma ddau neu dri mis, ac un dydd euthum i'r Corn Stores, a thra pwysai Mr. S. T. Lewis brawd i'r ymadawedig, y llafur, darllenwn hysbysiad Cyrddau Blynyddol Seion, Capel yr Annibynwyr. O'm gweld yn ei ddarllain gofynnodd a oeddwn yn aelod yno. Atebais nad oedd un capel ym Mhontypridd y gallwn yn gydwybodol addoli ynddo. Edrychodd arnaf yn syn gan ofyn i ba enwad y perthynwn. Dywedais mai Undodwr oeddwn. Synnodd dipyn a gofynnodd a aroswn funud neu ddau. Rhedodd i fyny i Tophill gan ddod a'i frawd yn ôl gydag ef, a mawr oedd eu llawenydd o ddeall mai Undodwr own. O hyn i'w farwolaeth buom yn ffrindiau calon, ac wedi cydweithio dros yr un achos y bu ef mor egniol i'w sefydlu.

Edrychai allan bob amser am unrhyw un a chysylltiadau Undodaidd ganddo, yn enwedig bechgyn o Sir Aberteifi megis E. J. Thomas, brawd y diweddar Barch. Arthur Thomas a'r diweddar John Davies, Sculptor, a Mr. J. M. Lloyd Thomas ei frawd-yng-hyfraith, cyfreithiwr ym Mhontypridd. Bu'r brodyr uchod yn nerth a chymorth i'r achos ym Mhontypridd, yn arbennig felly'r Parch. J. M. Lloyd Thomas. Trwy ddylanwad Mr. Lewis y daeth yn ysgrifennydd cyntaf yr eglwys. Profodd Mr. Thomas ei hun yn amddiffynwr dewr yn erbyn ymosodiadau ar yr egwyddorion Undodaidd a wnaed gan y Parch. Vyrnwy Morgan, gweinidog yr Annibynwyr Saesneg yn y Free Press a breintid yma.

Cyffesid hyd yn oed gan yr Annibynwyr ei hunain fod y gweinidog y Parch. Vyrnwy Morgan wedi torri mwy o damaid nag a fedrai gnoi, a bod Mr. Thomas wedi dangos medr wrth ddadlau.

Yr oedd John Lewis yn foneddwr yng ngwir ystyr y gair. Perthynai iddo nodweddion arbennig megis tynerwch, addfwynder, a chydymdeimlad. Y mae Top Hill wedi bod am dros ddeugain mlynedd yn gartref oddicartref i ugeiniau o weinidogion yr enwad yn Lloegr a Chymru. Yr oedd yma ddrws agored a chroeso calon gynnes ganddo ef a'i briod barchus bob amser.

Yr oedd yn drysorydd yr eglwys o'i sefydliad, yn arolygwr yr Ysgol Sul a melys yw cofio ei ofal am y plant, yn enwedig y rhai bach. Gwelsom ef lawer gwaith pan fyddai'r hin yn arw yn eu gyrru gartref yn ei gar modur. Er ei fod ef yn troi mewn cylch uchel yng nghymdeithas y dref, fe'i perchid a'i hanwylid gan y plant.

Y flwyddyn gyntaf wedi sefydlu'r Ysgol Sul credem y dylasai'r plant gael *outing* ond yr oedd yr arian yn brin, ond gwelodd John Lewis fod y plant yn cael *outing* yng ngherbydau'r Corn Stores i ben mynydd Eglwysilan. Y mae deugain mlynedd bellach oddiar hyn ond y mae'n fyw iawn ynghof llawer ohonom. Fel eglwys hiraethwn o'i golli yn fawr iawn ac y mae'n cydymdeimlad yn llwyr gyda'r teulu yn eu galar. Traddodwyd ei araith angladd "Funeral oration" gan ei frawdynghyfraith—y Parch. J. M. Lloyd Thomas ac eddyf y rhai a'i clywodd na chlywyd ei thebig am ei hyodledd a dyfnder ei theimlad yn yr ardal.

Y mae'r gweithiwr diflin a distaw, y bywyd pur a'r galon fawr wedi mynd tan len ond fe gyfyd yn fwy ei ddylanwad wedi cilio o'r hiraeth i ysbrydoli pob Undodwr gwir i fwy o sêl dros ei gapel a thros ei egwyddor.

D. Davies.

Cyfarfod Blynyddol Urdd y Benywod.

Y mae'r Golygydd hynaws wedi ysgrifennu blaen nodion am y Cyfarfod gan dynnu "y gwynt o'm hwyliau" ys dywed y Sais a heb adael fawr i mi i'w wneuthur.

Yr oedd Sadwrn, Tachwedd 26ain yn "Red Letter Day" yn hanes y Mudiad a adferwyd ryw flwyddyn yn ôl ac y sydd wedi bwrw ei wreiddiau'n ddwfn, fel y tystiai y cynhulliad lluosog o bob Eglwys yn Sir Aberteifi i Landysul y dydd hwn. Daeth cynrychiolaeth o gyn belled ffordd ag Aberystwyth, tra daeth Mrs. Barnard, aelod o gynulleidfa Stand—o Fanceinion gyda'r unig amcan o ddweyd gair am y mudiad yno. Merch yw i'r diweddar Gwilym Marles a gweddai ei phresenoldeb i'r amgylchiad. Cafodd groeso teilwng. Felly hefyd ei chwaer Miss Marles Thomas y sydd yn cefnogi'r Urdd mor bybyr.

Syniad hapus iawn oedd un Mrs. Park Davies i gael gwasanaeth cymun mewn cwrdd eto, ac o daw hyn i ben, bydd yn sicr o bwysleisio ochr ddyfnaf a defosiynol yr Urdd gan gynorthwyo'r aelodau i sylweddoli y gwir amcan. Darllenodd Mrs. Park Davies bapur gwir ddiddorol a theilyngai gael ymddangos yn Yr Ymofynnydd. Ni ellir amau na wasanaethau'r Urdd amcan ddefnyddiol oherwydd y mae pob cangen ar gais y Gymdeithas Undodaidd wedi anfon tanysgrifiad i'r cyllid. Ni fyddai'r llith hon yn gyfan heb i mi dalu diolch i bobl dda'r Graig am ein derbyn mor llawen, ac am yr awr o gymdeithas felys a'n gilydd yn y festri er cael ysgwyd llaw a hen gyfeillion ac adnewyddu hen gyfeillgarwch. Fe erys yr awr hon yn hir yn y cof. Yr oem yn falch i weld pob un o'r gweinidogion wedi dod a llongyfarchwyd y Parch. Lewis Williams ar ei adferiad. Gellir galw'r Urdd felly yn "wifren fyw" yr enwad. Beth a wnawn ohoni? Y mae'n rhoddi cyfleusterau euraidd i ni. Gadawer i ni fanteisio arnynt er cydweithio dros yr Ysgol Sul, caniadaeth y cysegr, gofal am y cleifion, fel y byddwn yn barod i ateb pob galwad a wneir arnom er lles ein heglwys.—K.J.

Priodas.

Ionawr 7, yng Nghapel Tyngwndwn, Felinfach, Mr. David Islwyn Evans, Ship Inn, Pennant a Miss Frances Mary Evans, Moelhedogisaf, Pontshaen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a Emrys Evans, Gweinidog Tyngwndwn, yngwydd y Cofrestrydd. Eiddunwn iddynt bob daioni.

Marwgofion.

Ionawr 2, Catherine Davies, Rhydowengoed, gweddw y diweddar John Davies, Rhydowenfach, Llandysul, yn 67 oed. Tua deng mlynedd ar hugain yn ôl y daeth hi a'r teulu i fyw i ardal Llwynrhydowen ac nid hir y bu yma cyn colli ei phriod a'i hunig ferch, a dyna hi i dreulio gweddill ei dyddiau mewn unigedd. Effeithiodd colli'r ferch yn drwm arni a daliodd i hiraethu amdani hyd y terfyn. Er yn ddieithr hollol i'r ardal pan y daeth penderfynodd wneyd ei chartref ynddi wedi mynd yn unig. Hoffai'r ardal a'i chymdogion a hoffent hwythau hithau a phan y blinid hi weithiau gan afiechyd byddai digonedd o gyfeillion a chymdogion yn barod i weini arni. Benyw gryno, gymen, ddarbodus ydoedd—y tŷ bob amser yn lân ac o gylch y tŷ yn gryno. Nodwedd amlwg yn ei chymeriad oedd ei pharodrwydd i helpu ereill. Dim ond gair fyddai'n eisiau os byddai o fewn ei gallu hi i wneud cymwynas. Perchid hi'n fawr ar gyfrif ei didwylledd a'i diniweidrwydd. Yr oedd yn un o ffyddloniaid yr eglwys yng Ngharmel ac yr oedd popeth Carmel yn annwyl ganddi. Hoffai gapel a mynwent Bwlchyfadfa'n fawr hefyd am mai yno y gorwedd llwch ei rhai annwyl. Gadawodd nifer o neuaint i alaru ei cholli. Claddwyd y Gwener dilynol ym Mwlchyfadfa—yn unol a'i threfn hi pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Cymerwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. D. A. Williams, Carmel.

Ionawr 6, John Harry, annwyl briod Lizzie Crabb, Pwllgravel, Pontshaen yn 32 oed. Mab ydoedd i Charles a'r diweddar Margaret Crabb, Efel Castellhywel. Nid oedd o gyfansoddiad cadarn, eto ar y cyfan cafodd iechyd lled dda hyd o fewn i ychydig i'w farw pryd y cymerwyd ef yn glaf a gwaethygu wnaeth o ddydd i ddydd hyd y terfyn. Gwnaeth ei briod a chyfeillion ereill bopeth a allent i'w gadw ond dianc wnaeth. Yr oedd yn fachgen o rodiad cywir—glân ei iaith, tawel a charedig ei yspryd. Yr oedd ei gyfoedion yn hoff iawn o hono a mynych y gwelid amryw o honynt yn mwynhau awr yn ei gwmni ar ei aelwyd yr hwyr. Yr oedd yn weithiwr egniol a didwyll—gofalai bob amser roi gwaith llawn am ei gyflog. Pan yn blentyn a llanc ieuanc mynychai'r gwasanaeth a'r Ysgol Sul ym Mwlchyfadfa ond ers rhai blynyddoedd ymaelododd yn Llwynrhydowen. Mae'n flin gennym feddwl na chawn weled ei wyneb ef mwy, ac hyderwn y ca ei deulu bach brofi fod Duw o hyd yn Farnwr y gweddwon a Thad yr amddifaid. Cafodd angladd parchus a llawn o gydymdeimlad y dydd Mawrth canlynol pryd yr hebryngwyd ei weddillion i fynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, D. A. Thomas, (E), J. R. Evans (E), a Dewi J. Jones.

Ion. 12, yn 23 oed, wedi cystudd hir, mewn gair, bu ei oes bron ar ei hyd yn gystudd iddo, bu farw Tudor

Thomas, mab Mr. a Mrs. David Thomas, Cigydd, Llanybyther. Bachgen yn dihoeni ac mewn llesgedd mynych ydoedd Tudor ond yn berchen ar natur ffein, ar gymeriad addfwyn, ac ar galon agored. Oherwydd ei iechyd bregus yr oedd yn ffefryn y teulu. Gwyliai'i dad a'i fam, ei frodyr a'i chwaer yn dirion drosto megys y gwylir blodeuyn bach rhag y rhew. Ofer fu pob gofal. Ni fedrai cariad teulu cyfan gadw angau draw a hunodd Tudor, gan adael y teulu mewn galar wedi'r ddyrnod. Nid dyma'r gyntaf, a loes i galon tad a mam yw ffarwelio a phlant mawr wedi'u magu. Dyna dynged llawer tad a mam a dyna dynged y teulu hwn. Y mae tri fel Tudor bellach wedi blaenu. Claddwyd ym mynwent Alltyplaca. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. T. O. Williams a Lewis Williams. Traddodwyd y bregeth gan ei weinidog y Parch. S. E. Bowen a gweddiwyd gan weinidog Llansawel. Gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams. Y mae Tudor wedi mynd. Y mae aelwyd wedi'i darnio a chalon teulu dan ei chlwyf ond erys yr atgof amdano a'r gred mai Cariad yw Duw.

Nodion yr Eglwysi.

BRONDEIFI.—Gan mai'r Golygydd yw Gweinidog yr Eglwys gedy lawer o nodiadau allan rhag tybio o rywrai roi gormod o sylw iddi ond nid teg hyn bob amser. Ym mis Tachwedd bu Cwmni Trecynon yma yn chware "*Interference*" ac nid oes raid ond dywedyd iddynt wneud fel y disgwyliem iddynt. Yr oedd y Neuadd yn orlawn, a chawsom noson wrth ein bodd. Da oedd gweled "Tyssul" a "John Thomas" ac eraill wedi dod gyda'r cwmni er gweld eu bod yn rhoi o'u goreu i Frondeifi. Diolch gyfeillion annwyl! Ymhen rhyw bum wythnos, ar nos Fawrth wedi'r Nadolig bu gennym Noson o Ddrama eilwaith a'r Neuadd eto yn llawn hyd y fyl, a phedwar cwmni o Frondeifi yn chware pedair drama fer ac un ohonynt yn gwmni o blant ysgol yn "tynnu'r tŷ i lawr" fel y dywedir. Er na fwriadai'r pedwar cwmni ond rhoi noson lawen i Lanbedr ar wyliau'r Nadolig, a nemor un o'r actwyr wedi wynebu torf erioed gwnaethant yn eithriadol dda ag ystyried yr anfanteision nes ennill cymeradwyaeth y dorf yn y nodd mwyaf calonnog. Grwgnach a glywir y dyddiau hyn gan lawer fod eisiau arian at rywbeth beunydd a chan ein bod ninnau wedi gosod golau newydd yn y capel penderfynodd Cymdeithas Drama Brondeifi glirio'r gost a gwnaethont hynny yn anrhydeddus. Y mae ymdrech y Gymdeithas yn teilyngu diolch heblaw bod y ddyled wedi'i thalu. Ni ŵyr ond y profiadol mor drafferthus yw festri a stâr garreg iddi ar noson dywyll. Yr oedd Urdd y Benywod wedi achwyn droion ond heb fedru symud y gynulleidfa a phenderfynodd fynd ati ei hun a thrwy *ddarlith* ar "Yr Emyn Cymraeg" gan y Gweinidog daeth golau ar lwybr caregog y festri. Ni fynnai'r Ysgol Sul fod gwell golau ar y stâr nag oedd yn yr Ysgol, ac aeth hithau ati i bwrcasu golau iddi hi ei hun fel na fedrir dywedyd ein bod mewn tywyllwch naturiol yma o leiaf. Ar ddydd Mercher cyntaf yn y flwyddyn newydd cynhaliwyd gwledd y tê gan deulu hael y Crynfryn, Cwmanne—Mr. a Mrs. Rees a Dewi, ac yr oedd yr ysgoldy'n llawn drwy'r prynhawn a phawb wedi mwynhau'u hunain. Yn yr hwyr cafwyd Xmas Tree a'r rhoddion wedi'u rhoi gan Messrs. James Brothers, Cwmanne a Miss Evans, Peterwell Terrace ac ugeiniau o blant yn derbyn o law Santa Claus ym mherson Johnnie James, y Siop, Cwmanne. Wedi'r anrhegion ac anrhegu mynychwyr yr Ysgol Sul cafwyd cyngerdd blasus o ganu ac adrodd. Y mae Urdd y Benywod yn fyw iawn yma ac yr ym wedi cael rhai "demonstrations" diddorol gan Miss Cissie Evans,

Coedmor Hall a Miss Joan Owen, Ysgol y Sir, Llandysul ac y mae eraill i ddilyn yr wythnosau nesaf yma. Nid dim ond ymdrech eglwysig sydd yma, ond y mae yma hefyd galonnau hael ac annwyl. Un o'r Suliau nesaf yma bydd yna Feibl Newydd Hardd ar y pulpud trwy weithgarwch ac ymdrech ddiflin Mrs. Davies, Glynteifi, New Street, a hithau yn hannu o hen gyff sydd wedi bod mewn cysylltiad a'r achos o'r dechrau, a hefyd y mae aelod arall yma ar estyn rhodd o *Portable Individual Communion Outfit—E.P. N.S.*, ar gyfer y claf a'r methiedig a cheir nodiad yn y rhifyn nesaf amdanynt. Nid yw hynyna ond awgrym ein bod ni'n ceisio yn yr amseroedd caled yma i wneud rhywbeth i gadw Eglwys Dduw yn weithgar ac mor flodeuog ag y medrwn ond yn gweddio am well graen eto.

CAERONNEN.—Wrth adrodd hynt Brondeifi nid têg anwybyddu'r hen fam yng Nghaeronnen. Ni chredwn ni Ynghaeronnen ond mewn talu mewn arian am bob dim. Yr oedd diffyg ar yr adeilad a chostiodd inni ugain punt i'w atgyweirio. Y mae ugain punt yn swm fawr i gynulleidfa fach ond ar Sul y Nadolig rhowd y cais i'r gynulleidfa am yr arian a heb gasglu na dim cyn i'r gynulleidfa godi fel offrwm Nadolig y gynulleidfa er cof am ymdrech y teidiau talwyd y ddyled. Rhagorol yr ymdrech a Rhagorol y modd. Yn ystod gwyliau'r Nadolig cawsom dê a Xmas Tree, "social" fel y'i galwn a phob aelod o Gaeronnen yn ymdrechu bod yn bresennol a chafwyd noson ddifyr. Rhowd y tê gan *Urdd y Benywod* a rhoddion y Xmas Tree gan Mr. Davies, Llwynonn, Miss Davies, Llwynifan a Misses Williams, Brynllewelyn. Rhowd aur-afalau a chnau hefyd i'r plant gan Santa Claus (Mr. Llew Jones, Gelligaer) a Mrs. Jones, Ty'r Capel.

LLWYNRHYDOWEN.—Cafwyd cyngerdd gwir odidog yn y lle hwn nos Lun, Rhagfyr 26. Yr oedd rhai o brif gantorion y Dê wedi eu cyflogi ar gyfer y noson a chawsom ganu ardderchog iawn. Llywyddwyd gan y cyfaill ffyddlawn Mr. David Davies, Sychdy, ac yn ystod yr hwyr cafwyd anerchiad diddorol gan Mr. J. C. Jones, Derwydd.

BWLCHYFADFA.—Nos Fercher, Ion. 4, cafwyd gwledd o dê yma dan nawdd Urdd y Benywod. Dyma'r gorau gafwyd yma erioed yn ôl barn rhai. Yr oedd y Neuadd wedi ei addurno'n ddestlus iawn ac ar ganol y llawr safai coeden Nadolig yn llwythog o roddion i'r plant. 'Roedd y ddarpariaeth ar y byrddau'n bob-peth allesid ei ddymuno a chafwyd hwyl fawr o'r cychwyn i'r terfyn. Teimlwn yn wir ddiolchgar i bawb fu a llaw'n y gwaith yn enwedig i Mr. J. R. Thomas am chwareu rhan "Father Christmas" ac i Miss Thomas, Vrondolay am ei haelioni a'r rhan amlwg iawn chwareuwyd ganddi hithau. Yn ystod yr hwyr cafwyd adrodd a chanu ac anerchiadau gan Mr. J. Marles Thomas a'r Parch. E. O. Jenkins.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Gorchwyl pleserus yw cofnodi a ganlyn. Euthum i'r oedfa bore Saboth ddydd Nadolig ac eisteddwn yn fy lle arferol, ac edrychwn oddiamgylch er gweled pwy oedd wedi cyrraedd, ond daliwyd fy llygad gan ddisgleirdeb o gyfeiriad y pulpud, na chofiwn ei weled o'r blaen. Wedi sylwi yn fanwl canfyddwn fod Beibl newydd arno, a'r ymylon yn disgleirio yn danbaid dan ddylanwad pelydrau'r haul, a ddeuai drwy y ffenestr fel pe bai Duw wedi trefnu iddynt ddyfod yn unionsyth ar y Beibl newydd. Deffrowyd fy nghywreinrwydd, a gofynnais i mi fy hun o ble daeth hwn? Wel, rhaid oedd ateb y cywreinrwydd, ac ar ôl yr oedfa gwneuthum ymholiad, ond yr oedd pawb fel finnau, yn methu ateb. "Wel" meddwn, "dewch weld beth yw'r ysgrifen sydd arno, os oes un." A darllenwn fel y canlyn: "Cyflwynwyd y Beibl hwn i wasanaeth pulpud yr Hen Dy Cwrdd yn Ddiolch Offrwm gan un o blant yr eglwys." Ni roddai hyn atebiad cyflawn, ond gorfu i'm ymfoddloni ar hyn, canys ni wyddom hyd yn hyn, pwy yw'r rhoddwr caredig. Pwy bynnag yw —canys mae am fod yn ddi-enw— estynnwn fel eglwys ein diolchgarwch gwresocaf iddo am ei rodd hardd a phwrpasol, a chan ei fod yn un o blant yr eglwys, dymunwn iddo flynyddoedd lawer i gyd-addoli â ni yn yr hên deml gysegredig canys hawdd canfod fod yr Hen Dy Cwrdd yn gysegredig iddo yntau.

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.

(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.

By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.

(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.

An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.



JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVERSMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.